## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 01 Gorffennaf 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 24 Mehefin 2003

### Dadl Plaid Leiafrifol – NDM1516 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno cynigion i'r cyfarfod llawn ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael â cholledion swyddi gweithgynhyrchu a gwrthdroi'r dirywiad y Gymru wledig.

### NDM1517 Karen Sinclair (De Clwyd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Melysyddion mewn bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2003; ac hefyd

2. Yn ystyried:
a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft sef Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2003

3. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003; ac hefyd

4. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2003.

5. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.

6. Yn ystyried:
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft sef Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2003.

**NDM1518 Rhodri Morgan ( Gorllewin Caerdydd); Ieuan Wyn Jones (Ynys Mon); Mike German (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno i wneud contract cyfandaliad ar gyfer Adeilad Siambr newydd y Cynulliad gyda Taylor Woodrow Construction Cyf ar gost o £40,997,000.00 (heb gynnwys TAW).

**NDM1519 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.1 i gynghori'r Cynulliad ar delerau'r Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drafft. Teitl y Pwyllgor fydd Pwyllgor y Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Bydd pump Aelod o'r Cynulliad ar y Pwyllgor, dau o'r Blaid Lafur ac un yr un o Blaid Cymru, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor fydd:

1) Craffu ar ddarpariaethau'r Mesur drafft;

2) Derbyn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan unrhyw garfan a fydd yn gallu helpu gyda'i ystyriaeth ym marn y Pwyllgor;

3) Adrodd i'r Cynulliad erbyn 18 Gorffennaf ar unrhyw ddiwygiadau y mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid eu gwneud i'r Mesur drafft.

Bydd bodolaeth y Pwyllgor yn dod i ben ar 18 Gorffennaf 2003.

*Cyflwynwyd manylion y cylch gorchwyl a'r asesiad o oblygiadau sefydlu Pwyllgor yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2003.*

## Hysbysiad o dan Reol Sefydlog 22.25 (ii) a gyflwynwyd ar 26 Mehefin 2003

**NDM1531 Jonathan Morgan (Canol De Cymru); Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Alun Cairns (Gorllewin De Cymru)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 22.25 (ii), rydym yn ei gwneud yn ofynnol bod y Gorchmynion drafft a ganlyn, y cynigir eu cymeradwyo yng nghynnig NDM1517, yn cael eu hystyried ar wahân mewn Cyfarfod Llawn o'r Cynulliad:

Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2003

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003, a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 26 Mehefin 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1516**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl 'cyflwyno' ac ychwanegu:

'rhaglen lywodraethu gynhwysfawr cyn diwedd y sesiwn hwn'

**2. Karen Sinclair (De Clwyd)**

Dileu popeth ar ôl Cynulliad Cenedlaethol, ac ychwanegu:

1. Yn cymeradwyo penderfyniad Prif Weinidog Cymru i benodi Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

2. Yn cydnabod y bydd y ffaith bod economi Cymru yn parhau'n gryf yn sail ar gyfer darparu gwasanaethau gwell

3. Yn cymeradwyo'r ffaith bod cyfraddau cyflogaeth wedi codi yn y Gymru Wledig ac yn hyderus bod gan y Gymru Wledig ddyfodol diogel fel lle y bydd pobl yn dewis byw a gweithio ynddo

**NDM1518**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Rhoi '£1' yn lle ''£40,997,000.00'

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod prosiect newydd ychwanegol Adeilad y Cynulliad yn groes i ddymuniadau mwyafrif pobl Cymru'.

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'yn condemnio'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i brosiect newydd ychwanegol Adeilad y Cynulliad nag i ddarparu gwasanaethau cyboeddus.'

**NDM1519**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt bwled 3, dileu 'erbyn 18 Gorffennaf' ac ychwanegu 'cyn gynted â phosibl'